**LC1121**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2005

Mae'r Rheoliadau yma’n diwygio Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 drwy ddiwygio’r diffiniad o berson perthnasol. Effaith y diwygiad yw dileu’r prawf moddion i’r rhai sy’n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc anabl wrth benderfynu ar y grant y mae awdurdod tai lleol yn cael ei dalu o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwynt canlynol wedi’i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae geiriad rheoliad 1(1) yn y testun Saesneg yn anramadegol, yn yr ystyr ei fod yn dweud "The title of these Regulations is…and will come into force on 30 September 2005". Bernir bod angen diwygio’r geiriad, drwy wneud rhywbeth fel dileu "will" a gosod "they" yn ei le. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Gall y mân wall drafftio yma gael ei gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

12th Gorffennaf 2005